



# **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

## **Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant**

### **CORONAFEIRWS (COVID-19): CWESTIYNAU CYFFREDIN AR GYFER RHINIEN/GWARCHIEDWAID**

**FERSIWN 12 (29/03/21)**

**Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg/This document is available in English.**

#### **CYFLWYNIAD**

Nod y canllawiau yma yw cefnogi rhieni a gwarcheidwaid mewn perthynas â threfniadau gweithredol ysgolion Rhondda Cynon Taf.

Mae'r Cwestiynau Cyffredin yma yn cael eu llywio gan ganllawiau Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/ysgolion-canllawiau-coronafeirws>

<https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-i-ysgolion-lleoliadau-o-12-ebrill-html>

#### **CWESTIYNAU CYFFREDINOL**

##### **1. Sut mae risgiau i blant, athrawon a theuluoedd yn cael eu rheoli?**

Er mwyn atal y Coronafeirws (COVID-19) rhag lledaenu, mae ysgolion a lleoliadau eraill yn defnyddio ystod o fesurau amddiffynnol i greu amgylcheddau mwy diogel lle mae'r risg o ledaenu'r feirws yn cael ei leihau'n sylweddol. Er bod newidiadau o'r fath yn debygol o edrych yn wahanol ym mhob lleoliad, gan y bydden nhw'n dibynnu ar amgylchiadau unigol, maen nhw i gyd wedi'u cynllunio i leihau'r risgiau i blant, staff a'u teuluoedd.

Ymhlith y ffyrdd mae ysgolion a lleoliadau eraill yn mynd ati mae:

- cynnal asesiad risg i fynd i'r afael yn uniongyrchol â risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19 fel bod modd rhoi mesurau synhwyrol ar waith i leihau'r risgiau hynny i blant, pobl ifainc a staff
- gofalu bod staff, plant, pobl ifainc ac eraill ddim yn dod i'r ysgol os oes gyda nhw neu rywun sy'n byw gyda nhw symptomau COVID-19



- golchi dwylo'n rheolaidd am 20 eiliad gyda dŵr o'r tap a sebon neu ddefnyddio hylif diheintio dwylo a sicrhau hylendid anadlol da trwy hyrwyddo dull 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa'
- atgoffa dysgwyr a staff bod angen cadw pellter corfforol lle bo hynny'n ymarferol
- defnyddio biniau pedal rydych chi'n eu hagar â'ch traed/sy'n cau eu hunain ar gyfer cael gwared ar hancesi papur neu gadachau diheintio
- gosod arwyddion ledled adeilad yr ysgol i atgoffa'r holl blant a staff bod angen golchi dwylo'n aml a chadw pellter (corfforol) cymdeithasol
- glanhau arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn rheolaidd yn amlach, e.e. dolenni drysau, canllawiau, byrddau, offer chwarae a theganau
- darparu cadachau gwrthfacterol er mwyn glanhau mân bethau yn haws
- lleihau nifer y cysylltiadau rhwng pobl drwy greu grwpiau cyswllt
- lleihau nifer y cysylltiadau rhwng dysgwyr a staff drwy osgoi nifer fawr o bobl yn ymgynnull, e.e. mewn gwasanaeth
- newid yr amgylchedd gymaint ag sy'n bosibl, e.e. newid cynllun ystafelloedd dosbarth er mwyn osgoi cyswllt wyneb yn wyneb
- lleihau cymysgu rhwng grwpiau drwy wneud newidiadau i'r amserlen, e.e. cael amseroedd egwyl amrywiol, creu parthau chwarae gwahanol neu drwy gyflwyno amseroedd gollwng a chasglu amrywiol
- dysgwyr yn dod â'u hoffer ysgol eu hunain, ac yn ei ddefnyddio
- peidio â chaniatáu i ymwelwyr allanol ddod i'r ysgol yn ddiangen. Rhaid i ymwelwyr drefnu apwyntiad
- datblygu protocolau ynghylch defnyddio toiledau yn ystod amser egwyl a chinio
- defnyddio'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu
- pob disgybl blwyddyn 7 ac yn hŷn i wisgo gorchudd wyneb yn yr ysgol ac ar gludiant ysgol (gweler cwestiwn 13 isod am wybodaeth bellach)
- staff ysgolion cynradd ac uwchradd i wisgo gorchudd wyneb ym mhobman ar safle'r ysgol (gan gynnwys yn yr ystafell ddosbarth) lle does dim modd cadw pellter cymdeithasol
- cynnig profion llif unffordd ddwywaith yr wythnos i'r holl staff er mwyn nodi unigolion asymptomatig
- cynnig profion llif unffordd ddwywaith yr wythnos i bob dysgwr blwyddyn 10 ac yn hŷn i nodi unigolion asymptomatig; ac
- ystyried yn ffurfiol sut i leihau cysylltiadau rhwng pobl a sicrhau pellter rhwng pobl sydd yn yr ysgol lle bynnag y bo modd a lleihau'r potensial ar gyfer lledaenu'r feirws i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol



## **2. Pa blant sy'n cael mynychu'r ysgol ac a oes rhaid i mi anfon fy mhlentyn?**

Yn dilyn cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru, bydd pob ysgol yn cynnig darpariaeth i bob dysgwr o 12 Ebrill 2021.

Rhaid i bob plentyn fynychu'r ysgol ac eithrio ei fod yn hunanynysu neu os oes rhesymau dilys eraill dros fod yn absennol.

Dylech chi roi gwybod i ysgol eich plentyn, yn ôl yr arfer, os dydy'ch plentyn ddim yn gallu mynychu, a hynny fel bod staff yn effro i'r ffaith ei fod yn sâl ac yn gallu trafod y mater gyda chi.

## **3. A ddylwn i gadw fy mhlentyn gartref os oes gyda fe/hi gyflwr iechyd sylfaenol, neu os yw'n byw gyda rhywun mewn grŵp sy'n agored i niwed yn glinigol, neu os ydw i'n bryderus ynghylch fy mhlentyn yn dychwelyd i'r ysgol?**

Dylai unrhyw riant sydd â phryderon meddygol ynghylch eu plentyn geisio cyngor meddygol eu meddyg teulu neu ganllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru, a dilyn hynny.

### ***Dysgwyr sy'n 'eithriadol o agored i niwed' neu'n gwarchod***

Daeth y cyngor o ran gwarchod i ben ar 31 Mawrth 2021, felly gall staff a dysgwyr a oedd yn gwarchod fynychu'r ysgol. Mae gwybodaeth bellach ar gael yma:

<https://llyw.cymru/canllawiau-ar-warchod-ac-amddiffyn-pobl-ddiffinnir-ar-sail-feddygol-fel-rhai-eithriadol-o-agored-i-html>

Bydd pob ysgol yn parhau i gynnal asesiadau risg a rhoi camau yn eu lle i leihau risgiau, e.e. golchi dwylo'n rheolaidd, glanhau arwynebau, a systemau unffordd, fel y bo'n briodol.

Pan nad oes modd i ddisgybl fynychu'r ysgol oherwydd eu bod nhw'n hunanynysu, bydd yr ysgol yn parhau i ddarparu cefnogaeth ac adnoddau er mwyn i'r disgybl allu dysgu. Mae'n bosibl bydd hyn yn digwydd drwy amryw o ddulliau, e.e. pecynnau gwaith a gwaith o ffynonellau digidol drwy Hwb, ac ati.

### ***Dysgwyr sy'n agored i niwed yn glinigol â 'risg uwch'***

Yng nghyd-destun COVID-19, mae unigolion 'risg uwch' yn wynebu risg uwch o salwch COVID-19 difrifol. Mae'r categori yma'n cynnwys plant a phobl ifainc sydd ag ystod o gyflyrau iechyd cronig. Gan fod y cyngor i warchod wedi dod i ben, dylai dysgwyr yn y categori yma fynychu'r ysgol. Bydd pob ysgol yn parhau i gynnal asesiadau risg a rhoi camau ar waith i leihau risgiau, e.e. golchi dwylo'n rheolaidd, glanhau arwynebau, a systemau unffordd, fel y bo'n briodol.



### ***Byw gydag unigolyn sydd naill ai'n gwarchod neu sy'n wynebu risg uwch***

Os yw dysgwr yn byw gyda rhywun sy'n wynebu risg uwch neu a oedd yn gwarchod yn flaenorol, dylai fynychu'r ysgol gan fod y cyngor i warchod wedi dod i ben. Bydd pob ysgol yn parhau i gynnal asesiadau risg a rhoi camau yn eu lle i leihau risgiau, e.e. golchi dwylo'n rheolaidd, glanhau arwynebau, a systemau unffordd, fel y bo'n briodol.

### ***Rhieni/gwarcheidwaid a dysgwyr sy'n bryderus***

Mae ysgolion yn effro i'r ffaith y gallai rhai dysgwyr, rhieni/gwarcheidwaid fod yn amharod neu'n bryderus ynghylch dychwelyd i'r ysgol. Bydd ysgolion â chefnogaeth ar waith i fynd i'r afael â hyn. Gallai hyn gynnwys dysgwyr sydd wedi bod yn gwarchod yn flaenorol ond sydd wedi cael gwybod bod hyn ddim yn angenrheidiol mwyach, y rheiny sy'n byw mewn cartrefi lle mae rhywun yn agored i niwed yn glinigol, neu'r rheiny sy'n poeni am y risg gymharol uwch o COVID-19, gan gynnwys y rheiny o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) neu sydd â chyflyrau penodol fel gordewdra a diabetes.

Mae modd i rieni/gwarcheidwaid sy'n pryderu am ddysgwyr sydd â ffactorau risg sylweddol drafod eu pryderon gyda'r ysgol. Bydd yr ysgol yn esbonio'r mesurau sydd ar waith i leihau'r risg a darparu sicrwydd i bawb. **Rhaid** i ddysgwyr oedran ysgol gorfodol fynychu'r ysgol ac eithrio bod rheswm statudol yn berthnasol (er enghraifft, bod y disgybl wedi cael caniatâd i fod yn absennol, does dim modd iddo/iddo fynychu oherwydd salwch, yn absennol ar gyfer defod grefyddol angenrheidiol, ac ati).

## **4. A fydd cyfleoedd dysgu o bell yn cael eu darparu i blant sydd angen hunanynysu?**

Bydd cyfleoedd dysgu o bell yn cael eu darparu i ddysgwyr ym mhob grŵp blwyddyn sydd angen hunanynysu.

## **ADEILADAU'R YSGOL**

## **5. Pa fesurau sydd ar waith i sicrhau bod safle'r ysgol yn ddiogel?**

Mae lleihau cysylltiadau a chymysgu rhwng pobl yn lleihau'r risg o drosglwyddo'r feirws. Felly, bydd ysgolion yn ymdrechu i gadw grwpiau ar wahân a chynnal pellter rhwng unigolion lle bo hynny'n bosibl.

I ddysgwyr iau, mae'r pwyslais ar grwpiau cyswllt maint dosbarth lle bo hynny'n bosibl a chadw plant yn eu grwpiau cyswllt trwy gydol y diwrnod ysgol. Ar gyfer dysgwyr hŷn (er enghraifft, mewn ysgolion uwchradd lle mae angen i ddisgyblion gael mynediad at gwricwlwm eang) mae'r pwyslais ar gynnal pellter corfforol lle bo hynny'n bosibl y tu allan i'r ystafell ddosbarth, gan wisgo gorchudd wyneb pan does dim modd cadw pellter cymdeithasol a chynnal grwpiau cyswllt maint grŵp blwyddyn.



Dylai oedolion gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr oddi wrth ei gilydd, ac oddi wrth ddysgwyr (pryd bynnag y bo hynny'n bosibl). Fydd hyn ddim bob amser yn bosibl, yn enwedig wrth weithio gyda dysgwyr iau, dysgwyr sydd ag anghenion cymhleth neu sydd angen gofal cyswllt agos. Serch hynny, bydd hyd yn oed rhyw faint o gadw pellter cymdeithasol ymhlith oedolion am gyfnodau o fudd. Dyma gynghori'n gryf i oedolion a dysgwyr blwyddyn 7 ac yn hŷn hefyd wisgo gorchudd wyneb pan does dim modd cadw pellter corfforol.

Mae pob ysgol wedi gosod arwyddion er mwyn hwyluso'r weithdrefn o gadw pellter cymdeithasol ac i atgoffa'r holl staff a'r dysgwyr o'r angen i barhau â chadw pellter rhyngddynt nhw ag eraill.

Bydd systemau unffordd ar waith (lle bo hynny'n bosibl) a bydd arwyddion ar y lloriau/waliau yn cael eu defnyddio i nodi llwybrau unffordd.

Bydd amserlenni'n ceisio sicrhau bod cyn lleied â phosibl o symud o amgylch y safle ac yn sicrhau na fydd gormod o bobl yn ymgynnull yn y coridorau.

Mae ystafelloedd dosbarth wedi'u haildrefnu er mwyn gwneud y gorau o'r gofod. Bydd dodrefn dros ben yn cael eu symud oddi yno a bydd cynllun yr ystafell yn sicrhau osgoi cyswllt wyneb yn wyneb lle bo hynny'n bosibl.

Mae ysgolion yn osgoi sesiynau sy'n gofyn am nifer fawr o bobl i ymgynnull, e.e. gwasanaethau gyda mwy nag un grŵp.

Mae'n bosibl y bydd amser dechrau/diwedd yr ysgol a chyfnodau egwyl a chinio yn cael eu hamrywio.

Lle bo modd, mae toiledau ar wahân wedi'u dyrannu i wahanol grwpiau cyswllt. Bydd y toiledau'n cael eu glanhau'n rheolaidd drwy gydol y dydd.

Mae hylif diheintio dwylo a sebon dwylo ar gael bob amser gyda nifer o nodiadau atgoffa am bwysigrwydd hylendid dwylo da.

Mae gydag ysgolion gyflenwad da o finiau pedal mae modd eu hagor gyda'r droed ar gyfer gwaredu hancesi a chadachau yn ddiogel. Mae'r dull 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa' yn cael ei hyrwyddo ac mae'n dod yn rhan o ddiwylliant pob ysgol.

Mae ffenestri wedi'u hagor (lle bo hynny'n bosibl ac yn ddiogel i wneud hynny) i wella awyru naturiol.

Mae pob ysgol wedi diweddarau eu hasesiadau risg er mwyn sicrhau diogelwch eu lleoliadau ac mae'r rhain ar waith. Mae'r asesiad yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19 er mwyn rhoi mesurau synhwyrol ar waith i leihau'r risgiau hynny i blant, pobl ifainc a staff.



## **6. A oes cyfleusterau ar gyfer golchi dwylo'n rheolaidd ar gael ar gyfer aelodau o staff a dysgwyr?**

Mae dysgwyr a staff yn cael eu hannog i olchi neu ddiheintio eu dwylo ar ôl cyrraedd yr ysgol/wrth adael yr ysgol ac yn rheolaidd drwy gydol y dydd, yn enwedig cyn ac ar ôl trin bwyd, wrth ddefnyddio'r toiledau a phan fydd rhywun yn peswch neu'n tisian.

Mae'r arferion yma wedi'u hymgorffori yn niwylliant yr ysgol, ynghyd â disgwyliadau o ran ymddygiad. Mae dysgwyr iau a'r rheiny ag anghenion cymhleth yn cael cymorth pellach i'w helpu i gael hyn yn iawn.

Mae arwyddion ar waith ledled adeiladau'r ysgol yn nodi lleoliadau hylif diheintio dwylo ac mae arwyddion ym mhob ardal â sincipiau yn atgoffa pawb bod angen golchi dwylo'n aml. Mae digonedd o sebon dwylo a hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob adeilad ysgol.

## **7. Pa mor aml y caiff ysgolion eu glanhau?**

Mae pob ysgol yn cael ei glanhau am gyfnod hirach ac yn fwy aml bob dydd. Mae glanhawyr wedi derbyn cyfarwyddiadau ynghylch gofynion glanhau o safon uwch ac wedi dysgu i adnabod arwynebau mae rhaid eu glanhau yn amlach, fel dolenni drysau, byrddau, canllawiau, offer chwarae, teganau ac ati.

Mae adnoddau sy'n cael eu rhannu rhwng grwpiau cyswllt, megis cyfarpar chwaraeon, celf a gwyddoniaeth yn cael eu glanhau'n aml ac yn drylwyr, yn enwedig lle mae'n angenrheidiol iddyn nhw gael eu defnyddio gan fwy nag un grŵp cyswllt.

Mae digon o gadachau gwrthfacterol ar gael bob amser er mwyn glanhau mân bethau yn haws.

## **8. Beth os bydd rhiant/gwarcheidwad am fynd i adeilad yr ysgol er mwyn siarad ag athro/athrawes?**

Does dim caniatâd i unrhyw riant/gwarcheidwad fod yn adeilad yr ysgol ac eithrio eu bod wedi trefnu ymweld ymlaen llaw. Os bydd angen cyswllt athro/rhiant, dylid gwneud hyn drwy apwyntiad a dylid archwilio'r trefniadau ar gyfer cyfathrebu ar ffurf sain neu fideo yn lle hynny.

Bydd ymwelwyr allanol â'r ysgol yn cael eu derbyn i'r safle drwy apwyntiad wedi'i drefnu ymlaen llaw yn unig a dylen nhw wisgo gorchudd wyneb.

## **9. A yw adeiladau ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw?**

Mae gwaith cynnal a chadw arferol a phroffion statudol yn cael eu cynnal bob amser, gan gynnwys cyfnodau gwyliau a phan fydd yr ysgol ar gau.





## **Y DIWRNOD YSGOL**

### **10. Beth yw maint y grwpiau cyswllt?**

Ar adegau pan fydd ysgolion yn gwbl weithredol, mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig yn y grwpiau oedran hŷn yng Nghyfnod Allweddol 4 a 5, mae'r grwpiau cyswllt fel arfer yr un maint â grŵp blwyddyn, a hynny er mwyn galluogi ysgolion i ddarparu'r ystod lawn o bynciau'r cwricwlwm ac i ddisgyblion dderbyn addysg arbenigol neu ymyriadau. Os oes modd cyflawni hyn mewn grwpiau bach, dyma argymell i chi wneud hynny.

Mewn ysgolion cynradd, a blynyddoedd iau ysgolion uwchradd (Cyfnod Allweddol 3), mae'n bosibl y bydd modd i ysgolion ddefnyddio grwpiau llai, sef maint dosbarth llawn. Pan fydd hyn yn profi'n heriol yng Nghyfnod Allweddol 3, bydd angen grwpiau cyswllt mwy o faint – maint hanner y grŵp blwyddyn neu flwyddyn gyfan. Os oes modd, dyma argymell i chi wneud hynny gan ei fod yn helpu i leihau nifer y bobl y byddai gofyn iddyn nhw hunanynysu pe bai rhywun yn y grŵp yn dod yn sâl gyda COVID-19.

Beth bynnag fo maint y grŵp, dylid ei gadw ar wahân i grwpiau eraill lle bo modd a dylid annog dysgwyr hŷn i gadw pellter o fewn grwpiau.

### **11. Beth yw'r trefniadau ar gyfer dysgwyr sy'n defnyddio'r toiledau?**

Mae digon o hylif diheintio dwylo a sebon dwylo ar gael a, lle bo modd, mae ysgolion yn darparu toiledau ar wahân ar gyfer grwpiau cyswllt gwahanol.

Lle does dim modd darparu toiledau ar wahân ar gyfer grwpiau cyswllt gwahanol, mae o fudd i bawb i gael digon o hylif diheintio dwylo a sebon dwylo ac annog arferion hylendid dwylo da cyn ac ar ôl mynd i ardal y toiledau. Mae toiledau hefyd yn cael eu glanhau'n rheolaidd drwy gydol y dydd.

### **12. A yw fy mhlentyn gyda'r un grŵp bob amser?**

Mae grwpiau cyson yn helpu i leihau'r risg o drosglwyddo'r feirws, a hynny drwy gyfyngu ar nifer y dysgwyr a'r staff sy'n dod i gysylltiad â'i gilydd i'r rheiny sydd yn y grŵp yn unig. Dyma dderbyn bod dim modd i ddysgwyr, yn enwedig y dysgwyr ieuengaf, gadw pellter cymdeithasol oddi wrth staff na'i gilydd ac mae grwpiau cyson yn darparu mesur amddiffynnol ychwanegol. Bydd cynnal grwpiau cyswllt penodol sydd ddim yn cymysgu yn ei gwneud hi'n gyflymach ac yn haws, os bydd achos positif, nodi'r rheiny y bydd angen iddyn nhw, o bosibl, hunanynysu a chadw'r nifer mor isel â phosibl.

### **13. Beth yw'r gofynion ar gyfer gwisgo gorchudd wyneb?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddarau'r canllawiau ynghylch gwisgo gorchudd wyneb mewn ysgolion.



Mae'r canllawiau bellach yn nodi y dylai'r canlynol wisgo gorchudd wyneb:

- staff mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ym mhobman ar safle'r ysgol (**gan gynnwys ystafelloedd dosbarth**) lle does dim modd cadw pellter cymdeithasol
- dysgwyr mewn ysgolion uwchradd ym mhobman ar safle'r ysgol (**gan gynnwys ystafelloedd dosbarth**) lle does dim modd cadw pellter cymdeithasol (gweler isod)
- dysgwyr blwyddyn 7 ac yn hŷn ar **gludiant ysgol** penodedig
- ymwelwyr â **phob ysgol**
- rhieni a gwarcheidwaid sy'n gollwng ac yn casglu plant o **bob safle ysgol**

Nodwch – canllawiau yw'r rhain. Dydyn nhw ddim yn orfodol. (Dydy hyn ddim yn berthnasol i unigolion sydd â chyflyrau meddygol perthnasol sy'n eithriadau).

Os does dim modd cadw pellter cymdeithasol, dylai dysgwyr a staff **mewn ysgolion uwchradd** wisgo gorchudd wyneb yn yr ystafell ddosbarth hefyd. Dylai oedolion a dysgwyr ym mhob rhan o'r ysgol uwchradd y tu allan i'r ystafell ddosbarth barhau i wisgo gorchudd wyneb hefyd. Yr unig eithriadau yw amser bwyd, a phan fyddan nhw y tu allan, ac eithrio bod asesiad risg yr ysgol yn nodi bod angen mesurau ychwanegol, e.e. ar iard ysgol, lle mae yna nifer fawr o ddysgwyr mewn gofod cymharol fach heb wahanu grwpiau cyswllt (e.e. wrth aros i fynd i mewn i'r ysgol). Ddylai unigolion ddim tynnu gorchudd wyneb a'i wisgo drachefn yn aml, oherwydd mae modd i hyn halogi'r dwylo a'r wyneb. Os yw dysgwr yn mynd y tu allan am gyfnod byr, efallai y byddai'n haws dal ati i wisgo'r gorchudd wyneb. Ddylai dysgwyr ddim gwisgo gorchudd wyneb wrth redeg, chwarae pêl-droed na gemau egniol eraill.

Ddylai dysgwyr ddim cyffwrdd â blaen eu gorchudd wyneb wrth eu defnyddio neu wrth eu tynnu. Rhaid golchi dwylo wrth gyrraedd yr ysgol neu gartref a rhoi gorchuddion untro mewn bin neu roi gorchuddion mae modd eu haildefnyddio mewn bag plastig ar gyfer golchi.

Dydy hyn **ddim** yn berthnasol i wersi Addysg Gorfforol neu i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu gyflyrau meddygol perthnasol sy'n eithriadau.

Mae ysgolion wedi cael cyflenwadau o orchuddion wyneb ar gyfer staff ym mhob ysgol ac ar gyfer pob dysgwr mewn ysgolion uwchradd.

Dylai staff **ysgolion cynradd** hefyd wisgo gorchudd wyneb lle does dim modd cadw pellter cymdeithasol. Dydy hyn **ddim** yn berthnasol i ddysgwyr oedran ysgol gynradd, ac eithrio eich bod, wrth gwrs, yn dymuno i'ch plentyn wisgo gorchudd wyneb a'i fod yn gallu gwneud hynny'n ddiogel.

Er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r feirws ymysg rhieni/gwarcheidwaid a pherthnasau, yn ddelfrydol dylid gwisgo gorchudd wyneb wrth ollwng a chasglu'ch plentyn/plant ar gyfer pob **lleoliad ysgol** ac mewn unrhyw apwyntiadau yn yr ysgol sydd wedi'u trefnu ymlaen





llaw. Dylid hefyd barhau i gadw pellter cymdeithasol wrth gathau'r ysgol. Dyma argymell mai dim ond un oedolyn ddylai ollwng a chasglu plentyn/plant o'r ysgol.

Dydy gorchudd wyneb ddim yn disodli mesurau llawer yn fwy effeithiol fel cadw pellter cymdeithasol (corfforol) ac arfer hylendid dwylo da. Os caiff gorchudd wyneb ei wisgo, rhaid peidio â gwneud hyn yn lle gweithredu unrhyw un o'r rhagofalon eraill yma.

Bydd raid i ddysgwyr ysgolion uwchradd sy'n teithio ar gludiant ysgol penodedig wisgo gorchudd wyneb. Wedi dweud hynny, dydyn nhw ddim yn disodli arferion hylendid da. Bydd y mesur yma yn lleihau'r risg o ledaenu'r feirws, ond bydd yn yr un peth yn wir yn achos annwyd a fflw cyffredin.

Rhaid i ddysgwyr sy'n teithio i'r ysgol neu goleg ar drafnidiaeth **gyhoeddus** wisgo gorchudd wyneb tair haen yn unol â gorchymyn Llywodraeth Cymru. Dyma ragor o fanylion: <https://trc.cymru/cy/cludiant-ysgol>.

**A chithau'n rhieni, mae eich cefnogaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau bod eich plentyn yn gwisgo gorchudd wyneb ar gludiant i'r ysgol. Mae'n hanfodol bod pob dysgwyr oedran uwchradd yn gwisgo gorchudd wyneb ar gludiant penodedig i'r ysgol (ac eithrio bod yna resymau meddygol neu iechyd dros beidio), ac eithrio bod gyda'ch plentyn anabledd, salwch neu gyflwr sy'n amharu arnyn nhw'n gorfforol neu feddyliol.**

Trowch at yr adran Trafnidiaeth (cwestiwn 28 hyd at gwestiwn 37) i gael rhagor o wybodaeth am deithio rhwng y cartref a'r ysgol.

#### **14. A oes raid i rywun fesur tymheredd fy mhientyn wrth gyrraedd yr ysgol?**

Mae gyda phob ysgol ddyfais gwirio tymheredd (dyfeisiau is-goch sy'n anelu at y talcen). Yr ysgol sy'n rheoli hyn, ond dyw hyn ddim yn ofyniad gorfodol o ran gwirio tymheredd.

#### **15. Gaiff fy mhientyn ddod â bag/cas pensiliau i'r ysgol?**

Caiff plant ddod â bag/cas pensiliau i'r ysgol yn ôl y gofyn. Dylai'r rhain fod ar gyfer eu defnydd personol yn unig a rhaid peidio â rhannu offer na deunydd ysgrifennu. Serch hynny, sylwch y gall bagiau pensil ffabrig fod yn anodd eu glanhau. Dyma argymell y dylai dysgwyr ddod ag offer hanfodol yn unig â nhw i'r ysgol bob dydd. Dylid lleihau'r angen i drosglwyddo eitemau yn ôl ac ymlaen o'r cartref i'r ysgol lle bo hynny'n bosib

#### **16. Sut y caiff amseroedd egwyl/amser cinio eu rheoli a'u monitro?**

Mae dysgwyr yn bwyta cinio mewn manau bwyta penodol yn eu grwpiau cyswllt. Bydd modd bwyta yn yr awyr agored (gan ddibynnu ar y tywydd) ond eto, rhaid i ddysgwyr aros yn eu grwpiau cyswllt lle bo modd.



Bydd amseroedd egwyl ac amser cinio yn cael eu hamrywio i'r dysgwyr fel bod nifer y plant sy'n cael egwyl neu ginio ar yr un pryd ar ei lefel isaf bosibl.

### **17. Sut y mae modd i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu'r rheiny sydd angen cymorth corfforol er mwyn symud gadw pellter cymdeithasol?**

Mewn amgylchiadau lle mae cadw pellter cymdeithasol yn anodd (fel diwallu anghenion disgybl ag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu anghenion corfforol), mae Cyfarpar Diogelu Personol ychwanegol yn cael ei ddarparu i aelodau o staff os yw hyn yn addas yn ôl asesiad risg. Mae'r Awdurdod Lleol wedi darparu cyflenwadau Cyfarpar Diogelu Personol i bob ysgol.

Mae ysgolion hefyd wedi cael sgriniau symudol gan eu galluogi i ddarparu cymorth addysgol/bugeiliol/emosiynol wyneb yn wyneb i ddysgwyr sydd ei angen heb fod angen gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol.

Roedd staff sy'n darparu gofal personol agos i rai o'n plant mwyaf agored i niwed ag anghenion meddygol cymhleth wedi'u cynnwys yn rhan o'r rhestr flaenoriaeth ar gyfer brechu a chwason nhw gynnig eu dos cyntaf erbyn canol mis Chwefror.

### **18. Sut y caiff addysg y Cyfnod Sylfaen ei chyflwyno'n ddiogel?**

Mae modd i ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen gael y cyfle i ddysgu drwy chwarae o hyd. Yn ychwanegol at hyn, caiff manau awyr agored sydd ar gael eu defnyddio ac mae modd creu ardaloedd gwahanol yn y dosbarth ar gyfer gweithgareddau gwahanol e.e. gweithgareddau ysgrifenedig, creadigol, adeiladu, chwarae ac ati.

Yn ôl y dystiolaeth, dysgwyr ieuengaf yw'r grŵp sy'n wynebu'r risg isaf. Mae ymarferwyr addysg y blynyddoedd cynnar yn brofiadol iawn wrth ddiwallu anghenion plant ifainc a byddan nhw'n defnyddio'u barn broffesiynol.

Rydyn ni'n cydnabod na fydd y ddarpariaeth na'r profiadau union yr un fath ag yr oedden nhw cyn y pandemig, ond mae ymarferwyr yn y maes yma'n brofiadol iawn wrth ddiwallu anghenion plant ifainc. Mae parhau gyda'r dull o ganolbwyntio ar y plentyn yn golygu darparu Cyfnod Sylfaen o'r radd flaenaf a bydd modd cynnal yr un deilliannau dysgu o ran datblygiad cymdeithasol a phersonol a lles ynghyd â newid ac addasu manau dysgu ac adnoddau.

Bydd yr adnoddau sy'n cael eu defnyddio'n hawdd eu glanhau a byddan nhw'n cael eu glanhau'n aml.



## 19. A all plant gymysgu â'u ffrindiau ar ôl ysgol?

Y tu allan i'r ysgol mae'n bwysig bod yr holl staff, plant a'u teuluoedd yn parhau i ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â COVID-19, ac yn cyfyngu ar nifer y bobl maen nhw'n dod i gysylltiad â nhw.

**Dim ond gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu/goruchwylio** ar gyfer datblygiad a lles plant a phobl ifainc (a oedd o dan 18 oed ar 31 Awst 2020) sy'n cael eu caniatáu a dylid mynd ati i'w cynnal yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/cwestiynau-cyffredin-am-weithgareddau-awyr-agored-drefnir-i-blant>

Does **dim** hawl cynnal gweithgareddau dan do na gweithgareddau preswyl.

## 20. Sut mae trefniadau gollwng a chasglu plant yn yr ysgol yn cael eu rheoli?

Mae amseroedd dechrau a gorffen yr ysgol yn cael eu hamrywio.

Rhaid i rieni/gwarcheidwaid sy'n gollwng plant yn yr ysgol gadw pellter o 2 fetr oddi wrth deuluoedd eraill lle bynnag y bo modd a gwisgo gorchudd wyneb. Bydd arwyddion ar y lloriau er mwyn helpu rhieni/gwarcheidwaid i giwio ac aros 2 fetr oddi wrth ei gilydd. Does dim hawl i rieni/gwarcheidwaid fynd i mewn i adeilad yr ysgol a rhaid iddyn nhw adael safle'r ysgol ar unwaith, heb ymgynnull ag eraill.

Bydd trefniadau casglu plant o'r ysgol yn ystod cyfnod y prynhawn yn amrywio yn unol â chynllun safle unigol bob ysgol. Bydd ysgolion yn gwneud trefniadau priodol i sicrhau bod y rheolau cadw pellter cymdeithasol 2 fetr yn cael eu cynnal lle bynnag y bo'n bosibl. Rhaid i rieni/gwarcheidwaid/dysgwyr adael safle'r ysgol ar unwaith a pheidio ymgynnull ag eraill

Dyma argymhell mai dim ond un oedolyn ddylai ollwng a chasglu plentyn/plant o'r ysgol.

## **ARLWYO**

## 21. A yw Clybiau Brecwast yn weithredol?

O 12 Ebrill 2021, mae nifer y lleoedd ar gyfer y Clwb Brecwast yn parhau i fod yn gyfyngedig er mwyn sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol a rhoi mesurau hylendid a diogelu effeithiol ar waith. Felly, dim ond rhieni/plant sydd eisoes wedi gwneud cais ac wedi sicrhau lle yn llwyddiannus ar gyfer y Clwb Brecwast fydd yn gallu defnyddio'r cyfleuster yma.

Does dim modd sicrhau lleoedd ac maen nhw'n amodol ar nifer y lleoedd sydd ar gael. Rhaid i'r holl blant aros gyda'u grwpiau blwyddyn penodol yn y Clwb Brecwast.



## 22. Beth yw'r trefniadau ar gyfer amser cinio?

Mae'r gegin ar agor yn llawn ac mae bwyd ar gael i'r holl ddysgwyr sydd ei eisiau, gan gynnwys y rheiny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae dysgwyr yn bwyta cinio mewn manau bwyta penodol gyda'u grwpiau cyswllt. Mae arwynebau sy'n cael eu defnyddio i fwyta arnyn nhw yn cael eu glanhau ar ôl pob grŵp/defnydd. Mae modd bwyta yn yr awyr agored hefyd (gan ddibynnu ar y tywydd) ond eto, rhaid i ddysgwyr aros yn eu grwpiau cyswllt lle bo modd. Mewn nifer bach o achosion, mae'n bosibl y bydd angen i ddysgwyr fwyta cinio yn eu hystafell ddosbarth i gryfhau mesurau cadw pellter cymdeithasol.

## 23. A oes modd i ddisgyblion hŷn adael safle'r ysgol er mwyn cael cinio yn y gymuned?

Fydd dim modd i unrhyw ddisgybl adael safle'r ysgol yn ystod y dydd.

## 24. A fydd taliadau BACS yn parhau yn lle darparu Prydau Ysgol Am Ddim?

### Wythnos 29 Mawrth i 2 Ebrill (Gwyliau'r Pasg)

Ar gyfer yr wythnos wyliau yma, bydd taliad uniongyrchol i gyfrifon banc yn cael ei wneud ar neu o gwmpas dydd Llun **29 Mawrth** ar £3.90 y dydd (£19.50 am yr wythnos) i **bob** dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

### Wythnos 5 Ebrill i 9 Ebrill (Gwyliau'r Pasg)

Ar gyfer yr wythnos wyliau yma, bydd taliad uniongyrchol i gyfrifon banc yn cael ei wneud ar neu o gwmpas dydd Mawrth **6 Ebrill** ar £3.90 y dydd (£19.50 am yr wythnos) i **bob** dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

**Os ydych chi wedi derbyn taliad nad ydych chi'n gymwys i'w dderbyn, bydd angen i chi ei dalu yn ôl i'r Cyngor.**

Bydd pob dysgwr wedi dychwelyd i leoliad ysgol o 12 Ebrill, felly bydd taliadau BACS ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael darpariaeth prydau ysgol am ddim yn dod i ben, gan y bydd prydau bwyd yn cael eu darparu yn yr ysgol. Dim ond ar gyfer dysgwyr cymwys sy'n hunanynysu oherwydd COVID-19 y bydd taliadau BACS yn cael eu gwneud.

Bydd cofrestrau ysgol yn cael eu defnyddio i nodi dysgwyr cymwys sy'n gorfod hunanynysu, a bydd taliad cymorth prydau ysgol am ddim o £3.90 y dydd yn cael ei wneud i gyfrifon banc y rheiny sy'n gymwys.



## 25. A oes dŵr ar gael yn ystod y dydd?

Dylai pob dysgwr ddod â photel ddŵr wedi'i llenwi i'r ysgol y mae modd ei hail-lenwi yn ystod y dydd. Bydd y weithred o ail-lenwi poteli dŵr yn cael ei rheoli a'i goruchwylio gan yr ysgol er mwyn sicrhau bod dŵr ar gael i'r rheiny sydd ei angen neu sy'n gofyn amdano.

## AFIECHYDON A PHROFION POSITIF COVID-19

### 26. Beth fydd yn digwydd os bydd achos o COVID-19 yn cael ei amau neu wedi'i gadarnhau yn ysgol neu leoliad gofal fy mhlentyn?

Os yw plentyn, person ifanc neu aelod o staff yn datblygu symptomau sy'n gydnaws â COVID-19, bydd yn cael ei anfon adref a'i gynghori i hunanynysu am 10 diwrnod a bydd prawf yn cael ei drefnu. Mae rhagor o fanylion ar sut i wneud cais am brawf ar gael yma: <https://llyw.cymru/cael-prawf-coronafeirws-covid-19> neu ffonio 119 am ddim rhwng 7am ac 11pm.

Dylai pawb sy'n byw yn yr un tŷ ag ef/hi hunanynysu am 10 diwrnod. Os yw'r prawf yn nodi canlyniad negatif, yna bydd modd i gyfnod hunanynysu pawb arall ar yr aelwyd ddod i ben.

Bydd pob aelod o staff, dysgwyr a'u haelwydydd yn gallu cael prawf os oes gyda nhw symptomau COVID-19. Yn yr achos yma, rydyn ni'n eu hannog yn gryf i gael prawf. Os daw prawf negyddol yn ôl, caiff y plentyn, disgybl, person neu aelod o'r staff fynd yn ôl i'r ysgol a'r aelwyd ddod i ben â hunanynysu.

Os bydd y plentyn, person ifanc neu aelod o staff yn cael canlyniad **positif**, dylid anfon gweddill ei ddsbarth neu grŵp yn y lleoliad addysg neu leoliad gofal plant (h.y. **cysylltiadau agos posibl**) adref a'u cynghori i hunanynysu am 24 awr. Dydy hi ddim yn ofynnol i aelodau eraill o aelwydydd y dosbarth neu'r grwp/cysylltiadau agos posibl (gan gynnwys plant eraill) hunanynysu, ac eithrio bod y plentyn neu'r person ifanc sy'n byw gyda nhw yn dechrau datblygu symptomau. Serch hynny, dylen nhw ddilyn y canllawiau cadw pellter cymdeithasol cyffredinol yn ystod y cyfnod hunanynysu: <https://llyw.cymru/canllawiau-hunanynysu>

Bydd swyddog yn cysylltu ag unrhyw blentyn, person ifanc neu aelod o staff sydd wedi'i nodi o fewn y cyfnod 24 awr uchod gan yr ysgol/y Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau yn **gyswllt agos** achos wedi'i gadarnhau. Bydd y swyddog yn rhoi cyngor ac arweiniad pellach yn ymwneud â hunanynysu. **Rhaid** i unrhyw blentyn, person ifanc neu aelod o staff sydd wedi'i nodi'n gyswllt agos hunanynysu am o leiaf 10 diwrnod ers y cyswllt diwethaf â'r achos wedi'i gadarnhau. **Mae'r cyfnod hunanynysu 10 diwrnod llawn yn berthnasol hyd yn oed os yw'r cyswllt agos ei hun wedi cael prawf negatif yn ystod yr amser yma. Mae hyn am fod modd i'r symptomau gymryd peth amser i ddatblygu.**



### **Cyswllt agos yw:**

- unigolyn sydd wedi bod yn nes nag un metr atoch chi ac rydych chi wedi cael sgwrs wyneb yn wyneb â fe/hi, wedi cyffwrdd â chroen yr unigolyn, mae'r unigolyn wedi peswch arnoch chi, neu mae wedi cael cyswllt o fath arall â chi o fewn un metr am funud neu fwy
- unigolyn sydd wedi bod yn nes na 2 fetr atoch chi am fwy na 15 munud
- unigolyn rydych chi wedi teithio mewn cerbyd gyda fe/hi, neu wedi eistedd yn agos ato/ati ar drafnidiaeth gyhoeddus

Dydy hi ddim yn ofynnol i aelodau aelwyd y cysylltiadau agos (gan gynnwys plant eraill) hunanynysu, ac eithrio bod y plentyn neu'r person ifanc sy'n byw gyda nhw yn dechrau datblygu symptomau. Serch hynny, dylen nhw ddilyn y canllawiau cadw pellter cymdeithasol cyffredinol yn ystod y cyfnod hunanynysu.

Serch hynny, os bydd unrhyw un ar eich aelwyd yn datblygu unrhyw un o symptomau COVID-19, waeth pa mor ysgafn, mae angen iddo/iddi aros gartref (10 diwrnod ar gyfer y person sydd â symptomau a 10 diwrnod ar gyfer gweddill yr aelwyd), trefnu prawf cyn gynted ag sy'n bosibl a dilyn y canllawiau.

**Dydy canlyniad negatif ddim o reidrwydd yn golygu ei bod hi'n addas dychwelyd i'r ysgol. Bydd angen i'r rheiny sydd wedi cael cyswllt uniongyrchol/agos gyda rhywun sydd ag achos wedi'i gadarnhau ynysu am y cyfnod llawn o 10 diwrnod, hyd yn oed os ydyn nhw eu hunain yn derbyn canlyniad prawf negatif yn ystod y cyfnod hunanynysu 10 diwrnod. Mae hyn am fod modd i'r symptomau gymryd peth amser i ddatblygu.**

Lle mae ysgolion a lleoliadau gofal plant yn dilyn canllawiau ar atal a rheoli heintiau, a fydd yn lleihau'r risg o drosglwyddo, fydd dim angen cau'r lleoliad cyfan fel rheol.

Fel mesur atal/rheoli pellach, mae profion llif unffordd COVID-19, sy'n rhoi canlyniad cyflym, ar gael i'r holl staff sy'n gweithio mewn ysgolion. Mae'r rhain yn canfod unigolion asymptomatig yn gyflym. Mae profion i bobl eu defnyddio gartref yn cael eu cynnig i bob ysgol er mwyn i staff gael profion ddwywaith yr wythnos.

Hefyd, mae cyfle i ddysgwyr blwyddyn 10 ac yn hŷn gynnal profion llif unffordd ddwywaith yr wythnos gartref (ar yr amod bod ffurflenni caniatâd wedi'u cwblhau). Dim ond yr unigolyn sydd wedi'i enwi ar y profion a ddylai eu defnyddio. Ddylai aelodau eraill y teulu **ddim** eu defnyddio.

Bydd y cynnig profi yma yn galluogi ysgolion i ddiogelu unigolion sydd ddim yn dangos unrhyw symptomau rhag trosglwyddo COVID-19.





## 27. Pryd dylwn i beidio ag anfon fy mhlentyn i'r ysgol? Er enghraifft, os oes ganddyn nhw wres uchel.

- Dylai plant aros gartref os ydyn nhw'n teimlo'n sâl **waeth pa mor ysgafn yw'r symptomau**
- Os oes gyda nhw unrhyw un o dri symptom COVID-19 (peswch parhaus newydd, gwres neu dymheredd uchel, colli arogl neu flas, neu un o'r ddau yna'n newid) yna dylen nhw hefyd gael prawf

Ddylai dysgwyr na staff ddim bod ar safle'r ysgol/lleoliad o dan unrhyw amgylchiadau os ydyn nhw:

- wedi profi'n positif am COVID-19 yn ystod y 10 diwrnod diwethaf, neu
- maen nhw'n byw ar yr un aelwyd neu'n rhan o aelwyd estynedig â rhywun sydd wedi cael symptomau COVID-19 neu brawf positif am COVID-19 yn ystod y 10 diwrnod diwethaf, neu
- maen nhw wedi eu nodi'n gyswllt agos ag achos gan y Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu a'u cynghori i hunanynysu (**Rhaid i unrhyw un sydd wedi'i nodi'n gyswllt agos hunanynysu am isafswm o 10 diwrnod ers y cyswllt diwethaf â'r achos wedi'i gadarnhau. Mae'r cyfnod hunanynysu 10 diwrnod llawn yn berthnasol hyd yn oed os yw'r cyswllt agos eu hunain wedi cael prawf negyddol yn ystod yr amser yma. Mae hyn am fod modd i'r symptomau gymryd peth amser i ddatblygu.**)
- maen nhw wedi dychwelyd o wlad sydd wedi'i nodi'n wlad sy'n destun rheolau cwarantyn gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad

## CLUDIANT

### 28. A yw cludiant ysgol yn weithredol?

Mae gwasanaethau cludiant penodedig yn gweithredu i bob dysgwr sy'n gymwys, a hynny yn unol â [chanllawiau](#) Llywodraeth Cymru.

Rydyn ni'n annog rhieni neu warcheidwaid i fynd â'u plant i'r ysgol drwy gerdded neu feicio, neu mewn car preifat, yn hytrach na defnyddio cludiant pwrpasol yr ysgol. Rydyn ni'n effro i'r ffaith fydd hyn ddim yn bosibl i rai pobl.

Os ydy rhieni yn teimlo'n bryderus am risgiau ynghylch defnyddio cludiant ysgol yn ystod y pandemig, dylen nhw bwysu a mesur hynny, neu, os yw'n well gyda nhw, dylen nhw wneud eu trefniadau eu hunain i fynd â'u plant i'r ysgol ac yn ôl adref.



## 29. A yw llwybr cludiant arferol fy mhlentyn yn weithredol?

Ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr a oedd yn derbyn cludiant am ddim i'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf neu'r rheiny sydd wedi cael gwybod am drefniadau newydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21, bydd llwybrau'r bysiau yn parhau fel yr oedden nhw cyn y pandemig.

Byddwch chi wedi cael llythyr os ydy manylion cludiant eich plentyn wedi newid.

Mae manylion yr amserlen, gan gynnwys gweithredwr bws yr ysgol ar gyfer taith eich plentyn, a gwybodaeth ychwanegol am Wasanaeth Teithio Prif Ffrwd ar gael yma: <https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/ParkingRoadsandTravel/Travel/SchoolandCollegeTransport/Schoolbusroutes.aspx> (Mae modd i'r amserlen yma newid).

Mae angen i ddisgyblion ysgolion uwchradd fynd â'u cerdyn bws neu slipliau teithio dros dro gyda nhw. Rhaid iddyn nhw ddangos hynny i'r gyrrwr er mwyn cael teithio ar y cerbyd. Mae modd trefnu adnewyddu cardiau coll a thalu amdany'n nhw drwy lenwi'r ffurflen ar-lein neu ffonio'r Cyngor ar 01443 425001.

Bydd dysgwyr ysgolion cynradd wedi cael llythyr cadarnhau hawl. Rhaid i rieni ddangos y llythyr i'r gyrrwr er mwyn cael teithio ar y cerbyd. Os ydych chi wedi colli'ch llythyr cadarnhau, ffoniwch y Cyngor ar 01443 425001.

**Os doeddech chi ddim yn derbyn cludiant eisoes neu dydych chi ddim wedi derbyn cadarnhad bod eich plentyn wedi cael sedd am ddim ar fws cludiant ysgol, rhaid i chi drefnu'ch ffordd eich hun i'r ysgol.**

## 30. Mae anghenion dysgu ychwanegol gyda fy mhlentyn i. Pa drefniadau cludiant sydd ar waith i Ddosbarthiadau Cymorth Dysgu, Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Ysgolion Arbennig?

Mae darpariaeth tacsis, bysiau mini i Ddosbarthiadau Cymorth Dysgu, Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Ysgolion Arbennig yn parhau fel yr oedd cyn y pandemig.

Bob haf, rhaid i ni wneud rhai newidiadau er mwyn gwneud lle ar gyfer dysgwyr newydd. Byddwch chi wedi cael llythyr os ydy cludiant eich plentyn wedi newid.

Er dydy cadw pellter cymdeithasol ddim yn orfodol ar y math yma o gludiant, rydyn ni'n gweithio gydag ysgolion a gweithredwyr i gyflwyno camau cymesur i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gallu mynychu'r ysgol neu'r coleg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gyrrwyr a chynorthwywyr teithio yn gwisgo gorchuddion wyneb a chyfarpar diogelwch personol fel sy'n briodol



- cerbydau'n cael eu glanhau'n rheolaidd, gan gynnwys glanhau canllawiau, handlenni ac arwynebau mae teithwyr yn cyffwrdd â nhw
- cadachau gwrthfacterol a hylif glanhau dwylo ar gael
- ar gerbydau mwy (bysiau mini), bydd plentyn yn cael cyfarwyddyd i eistedd yn yr un sedd (lle bo'n bosibl) gyda'r un plentyn neu blant ar bob taith
- Bydd ffenestri ar agor yn ystod y daith i sicrhau bod y cerbyd wedi'i awyru'n dda

### **31. Does dim hawl gyda fy mhlentyn i gludiant am ddim, ga i dalu am sedd?**

Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi cynnig y cyfle i rieni neu warcheidwaid plant sydd heb hawl i gludiant i'r ysgol am ddim ar brynu seddi rhydd ar gludiant ysgol penodedig. Serch hynny, oherwydd yr heriau eithriadol yn sgil pandemig COVID-19, mae'r Cyngor wedi gorfod atal y cynnig i brynu seddi am y tro, a hynny er mwyn sicrhau bod gyda dysgwyr sydd â'r hawl i gludiant yn ei dderbyn, yn unol â [chanllawiau](#) diweddaraf Llywodraeth Cymru.

Mae nifer y seddi rhydd sydd ar gael wedi lleihau hanner gan fod angen cadw pellter cymdeithasol rhwng y gyrrwr/cynorthwy-ydd teithio a'r dysgwyr ar y cerbyd. Mae'n debygol y bydd rhai ysgolion lle does dim seddi ar gael i'w prynu.

Agorodd ceisiadau ar 28 Medi 2020. Gallwch chi gyflwyno cais i brynu sedd drwy lenwi'r ffurflen gais ar-lein ar wefan y Cyngor, neu drwy gysylltu â'r Gwasanaethau i Gwsmeriaid ar 01443 425001.

Mae rhai teithiau trafndiaeth gyhoeddus ychwanegol yn ystod amser ysgol yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae nifer y seddi yn dal yn gyfyngedig, ac o ystyried y cyfyngiadau yma sy'n effeithio ar allu dysgwyr i fynychu'r ysgol, dylid ystyried pob modd teithio cynaliadwy a llesol.

### **32. A oes angen cadw pellter cymdeithasol ar gludiant ysgol?**

#### **Cludiant penodedig i'r ysgol neu'r coleg**

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teithio ar fysiau neu dacsis penodedig, sydd dim ond yn cludo dysgwyr i'r ysgol neu'r coleg ac yn ôl.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod hi ddim yn bosibl bob tro i ddysgwyr gadw pellter cymdeithasol ar gludiant penodedig i'r ysgol neu'r coleg. Felly, fydd dysgwyr ar y rhan fwyaf o wasanaethau cludiant penodedig i'r ysgol ddim yn gallu cadw pellter cymdeithasol, ond mae disgwyl iddyn nhw fynd ar y bws, a'i adael, un ar y tro gan gadw pellter cymdeithasol.

Bydd mesurau diogelu cymesur ar waith i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 ar gludiant penodedig i'r ysgol er mwyn sicrhau bod modd i ddysgwyr fynychu'r ysgol ar y sail bod;



- y risg gyffredinol i blant a phobl ifainc yn isel o ran COVID-19
- cludiant penodedig i'r ysgol yn cludo'r un grŵp o ddysgwyr yn rheolaidd, a bod modd i'r dysgwyr hynny hefyd fod gyda'i gilydd yn yr ysgol
- yn eistedd gyda'i gilydd mewn grwpiau blwyddyn lle bo'n bosibl
- brodyr a chwiorydd yn gallu eistedd gyda'i gilydd
- dim eistedd wyneb-yn-wyneb
- dim cyswllt rhwng dysgwyr a theithwyr eraill
- ffenestri a ffenestri toeon ar agor lle bo'n bosibl
- cyswllt ag unigolion sy'n teimlo'n sâl yn cael ei leihau cymaint â phosibl
- pob teithiwr, gan gynnwys gyrwyr a chynorthwyrwyr teithio yn golchi'u dwylo neu ddefnyddio hylif diheintio cyn defnyddio'r cludiant wrth gyrraedd yr ysgol neu gartref
- hi'n hawdd nodi pwy oedd yn teithio ar y cerbyd ar gyfer y Gwasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu, os oes achos o COVID-19 yn cael ei amau neu'i gadarnhau
- gweithdrefn lanhau a diheintio trylwyr ar waith, rhwng, cyn neu ar ôl pob taith

### **Trafnidiaeth Gyhoeddus**

Mae rhai dysgwyr yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn rhan o'u taith i'r ysgol/coleg, ac yn ôl. Mae rhagor o wybodaeth am hynny ar gael yma <https://trc.cymru/cy/cludiant-ysgol>

I leihau trosglwyddo COVID-19, dylai dysgwyr:

- dod i gyn lleied o gysylltiad â phosibl ag unigolion sy'n teimlo'n sâl
- glanhau dwylo'n drylwyr ac yn fwy rheolaidd na'r arfer
- cynnal hylendid anadlol da drwy hyrwyddo'r dull 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa'

Wrth aros am y bws, cyfrifoldeb y rhiant yw sicrhau bod y plentyn yn ymddwyn yn gyfrifol. Mae hynny'n cynnwys cadw pellter cymdeithasol.

### **33. A oes disgwyl i'm plentyn wisgo gorchudd wyneb ar gludiant ysgol?**

Mae yna dystiolaeth glir mai'r ffordd fwyaf effeithiol o ddiogelu'ch plentyn ac eraill rhag y feirws yw dilyn rheolau cadw pellter, osgoi cyffwrdd ag arwynebau a'ch wyneb, a golchi dwylo'n rheolaidd. Dydy gwisgo gorchudd wyneb ddim yn disodli unrhyw ragofalon eraill, ond mae'n cael ei argymhell pan does dim modd cadw pellter cymdeithasol.



Efallai fydd dysgwyr oedran cynradd na'r rheiny ag Anghenion Addysgol Arbennig neu'r rheiny sy'n dibynnu ar ddarllen gwefusau ddim yn gallu gwisgo gorchudd wyneb yn ddiogel.

**Rhaid** i ddysgwyr ysgolion uwchradd wisgo gorchudd wyneb ar gludiant penodedig i'r ysgol, gan fod dim modd iddyn nhw eistedd gyda'i gilydd yn ôl grwpiau blwyddyn. Er hyn, dydyn nhw ddim yn disodli arferion hylendid da. Bydd y mesur yma yn lleihau'r risg o ledaenu'r feirws, ond bydd yn yr un peth yn wir yn achos annwyd a ffliw cyffredin.

Rhaid i ddysgwyr sy'n mynd i'r ysgol neu'r coleg ar drafnidiaeth gyhoeddus wisgo gorchudd wyneb 3 haen ar gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru. Dyma ragor o fanylion <https://trc.cymru/cy/cludiant-ysgol>

Ddylai dysgwyr ddim cyffwrdd â blaen eu wyneb yn ystod eu defnyddio neu wrth eu tynnu. Rhaid golchi dwylo wrth gyrraedd yr ysgol neu gartref a rhoi gorchuddion untro mewn bin neu roi gorchuddion mae modd eu haildefnyddio mewn bag plastig ar gyfer golchi.

**Cofiwch y bydd gwrthod cydymffurfio â'r gofyniad yma yn arwain at beryglu lle eich plentyn ar gludiant ysgol. Bydden ni'n ddiolchgar pe byddech chi'n siarad â'ch plentyn am hyn gan bwysleisio pwysigrwydd dilyn y rheolau. Os oes cyflwr meddygol ar eich plentyn neu mae gyda fe/hi broblem iechyd, nam neu anabledd a fyddai'n ei gwneud hi'n anodd gwisgo gorchudd wyneb, rhowch wybod i staff yr ysgol cyn gynted â phosibl.**

### **34. Pa ragofalon eraill mae rhaid i fy mhlentyn eu cymryd wrth deithio?**

Dyma ofyn i rieni a gwarcheidwaid helpu i esbonio i ddysgwyr bwysigrwydd hylendid da a dilyn mesurau cadw pellter cymdeithasol, gan y bydd rhain yn chwarae rhan allweddol wrth gadw pawb yn ddiogel.

Mae hyn yn golygu cymryd y rhagofalon canlynol:

- **peidio â theithio** os oes gyda'ch plentyn neu aelod o'u haelwyd unrhyw un o'r tri symptom COVID-19 sydd wedi'u nodi (peswch parhaus newydd, tymheredd uchel neu golli blas neu arogl)
- **peidio â theithio** os oes unrhyw un arall ar yr aelwyd yn gorfod hunanynysu, a hynny am eu bod yn gyswllt achos wedi'i nodi gan y Gwasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu neu os ydyn nhw wedi dychwelyd o wlad sydd o dan reolau cwarantyn yn ôl cyfarwydd y Swyddfa Dramor a Chymanwlad
- golchi'ch dwylo am o leiaf 20 eiliad neu ddiheintio'ch dwylo cyn gadael y tŷ
- defnyddio'r hylif diheintio dwylo sydd ar gael cyn mynd i mewn i'r cerbyd
- peidio â dod i gyswllt corfforol ag eraill
- agor ffenestri er mwyn awyru lle bo hynny'n bosibl
- peidio ag eistedd yn wynebu pobl eraill wrth ddefnyddio cludiant i'r ysgol



- lleihau nifer yr arwynebau rydych chi'n cyffwrdd a nhw, yn enwedig canllawiau a silffoedd ffenestri
- peidio â chyffwrdd â'ch wyneb
- peidio â bwyta nac yfed wrth ddefnyddio cludiant
- golchi'ch dwylo am o leiaf 20 eiliad neu ddiheintio'ch dwylo cyn gadael yr ysgol

**Nodwch y gallai gwrthod â chydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch, arferion hylendid da a rheolau cadw pellter cymdeithasol beryglu lle eich plentyn ar gludiant i'r ysgol. Bydden ni'n ddiolchgar pe byddech chi'n siarad â'ch plentyn am hyn gan bwysleisio pwysigrwydd dilyn y rheolau.**

### **35. Sut bydd fy mhentyn yn gwybod ble i eistedd?**

Dylai dysgwyr cynradd geisio eistedd mewn grwpiau blwyddyn. Dylai'r dysgwyr ieuengaf eistedd yn y tu blaen, gydag oedran dysgwyr yn cynyddu'n raddol tuag at y cefn yn ôl trefn oedran. Ar gyfer cludiant ysgol uwchradd, dylai dysgwyr geisio eistedd yn yr un seddi bob dydd. Rhaid iddyn nhw wisgo gorchudd wyneb. Gall brodyr a chwiorydd eistedd gyda'i gilydd. Bydd hyn yn sicrhau bod grwpiau cyswllt wedi'u strwythuro yn eistedd gyda'i gilydd lle bo hynny'n bosibl.

Bydd dysgwyr hefyd yn cael eu hannog i ddefnyddio hylif diheintio dwylo wrth fynd ar y bws. Y disgwyl yw bydd dysgwyr wedi golchi'u dwylo cyn mynd ar y bws ac wrth gyrraedd yr ysgol.

Efallai bydd gofyn i ddysgwyr ar fysiau neu gerbydau mwy ddefnyddio'r un sedd bob tro.

Bydd dysgwyr sy'n defnyddio cludiant penodedig, e.e. tacsis neu fysiau mini, yn eistedd yn yr un sedd bob tro.

### **36. Sut byddwch chi'n sicrhau fod dim gormod o ddysgwyr ar y bysiau?**

Dim ond teithwyr sydd wedi'u henwi gyda chaniatâd i deithio neu'r rheiny sydd â chardiau teithio i'r ysgol uwchradd ar gyfer y llwybr hwnnw sy'n cael defnyddio'r bysiau. Mae gyda'r gyrwyr restr o'r dysgwyr ysgolion cynradd hynny a fydd yn teithio yn eu bysiau nhw. Bydd yr egwyddor 'Dim Tocyn, Dim Teithio' ar waith ar gludiant ysgolion uwchradd, a bydd y rheiny heb hawl i deithio yn cael eu gwrthod.

### **37. A fydd y cyflenwyr trafndiaeth yn dilyn canllawiau iechyd a diogelwch?**

Rydyn ni'n gofyn i gyflenwyr trafndiaeth ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru <https://llyw.cymru/ailddechrau-trafnidiaeth-gyhoeddus-canllawiau-i-weithredwyr>. Mae'r canllawiau yma'n cynnwys camau fel diheintio a glanhau'r cerbydau'n rheolaidd ac yn drylwyr, a defnyddio Cyfarpar Diogelwch Personol.





## **DYSGWYR SY'N AGORED I NIWED A GWEITHWYR HANFODOL**

### **38. A oes darpariaeth ar gael i weithwyr hanfodol a dysgwyr sy'n agored i niwed?**

Mae pob dysgwyr yn dychwelyd i'r ysgol ar 12 Ebrill 2021, felly, bydd dysgwyr sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol yn mynychu'r ysgol ynghyd â'u holl gyfoedion.

## **YMWELIADAU ADDYSGOL**

### **39. Fydd ymweliadau addysgol yn cael eu cynnal?**

Yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru, fydd dim hawl cynnal ymweliadau addysgol. Bydd y cyngor yma'n cael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru.

## **ARHOLIADAU**

### **40. A yw arholiadau TGAU ac UG/Safon Uwch yn cael eu cynnal yn ystod haf 2021?**

O ganlyniad i'r cyfnod estynedig o ddysgu o bell, mae Llywodraeth Cymru wedi ailedrych ar gynigion ar gyfer cymwysterau, a hynny er mwyn ystyried yr effaith mae wedi'i gael ar les a hyder dysgwyr.

Mae'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflenwi (DDAG) (sy'n cynnwys penaethiaid ysgolion a cholegau) wedi llunio cynigion diwygiedig sydd wedi'u cymeradwyo gan y Gweinidog Addysg. Dyma nhw yn fras:

- Bydd dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch wedi'u cymeradwyo gan Gymwysterau Cymru yn cael eu dyfarnu trwy fodel Graddau wedi'u Pennu gan y Ganolfan. Mae hyn yn golygu y bydd graddau'n cael eu pennu gan eu hysgol neu goleg ar sail asesiad o waith y disgybl. Bydd dull cyfannol yn cael ei ddefnyddio, gyda thystiolaeth yn sail iddo i gefnogi'r hyn y mae dysgwr wedi'i gyflawni mewn meysydd astudio

Bydd modd i ysgolion a cholegau ddefnyddio ystod o dystiolaeth i bennu'r graddau i'w dyfarnu i'w dysgwyr. Gallai'r rhain gynnwys elfennau Asesu Heb Arholiad, ffug-arholiadau a gwaith dosbarth. Yn ogystal â hynny, mae CBAC wedi cynnig cyfres o gyn-bapurau wedi'u haddasu, a fydd yn galluogi ysgolion i barhau i asesu dysgu o fewn eu cynlluniau addysgu, gan ddarparu cefnogaeth ychwanegol i athrawon a dysgwyr. Rhaid i'r holl dystiolaeth sy'n cael ei defnyddio i nodi graddau fod yn waith y dysgwr ei hun, ond fydd dim asesiadau allanol ffurfiol.



Mae Cymwysterau Cymru wedi gweithio gyda CBAC, gyda chefnogaeth y Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflawni, i ddarparu fframwaith asesu i gynorthwyo ysgolion a cholegau i lunio eu cynlluniau asesu, a ddylai ddangos sylw digonol i gysyniadau allweddol er mwyn caniatáu i ddisgyblion wneud cynnydd, a manylu ar sut mae'r ganolfan wedi penderfynu ar raddau'r disgyblion. Bydd CBAC yn sicrhau ansawdd y cynlluniau asesu yma

- Mae'r dyddiadau cau a'r mesurau rheoli ynghylch asesu heb arholiadau wedi eu dileu a fyddan nhw ddim yn cael eu cymedroli gan CBAC. Serch hynny, dyma annog ysgolion a cholegau i gynorthwyo dysgwyr i ymgymryd â rhywfaint o'u Hasesiad Heb Arholiad i barhau i wellau'u haddysg a meithrin sgiliau.

Mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi **llinell amser** ar gyfer dysgwyr. Mae'n dangos y bydd ysgol neu goleg dysgwr yn trafod y Graddau arfaethedig wedi'u Pennu gan y Ganolfan ar gyfer y dysgwr ym mhob un o'u pynciau ym mis Mehefin. Rhaid i'r ysgol neu'r coleg anfon y graddau yma i CBAC erbyn 2 Gorffennaf. Ar hyn o bryd, dydy'r graddau ddim wedi'u cadarnhau, gan y bydd angen i CBAC gynnal gwiriadau terfynol ar gyfer pob ysgol a choleg, a hynny er mwyn sicrhau bod prosesau clir wedi'u dilyn. Bydd y graddau'n derfynol pan fydd dysgwyr yn eu derbyn ar ddiwrnodau canlyniadau. Mae'r diwrnod canlyniadau ar gyfer dysgwyr UG a Safon Uwch ar 10 Awst, a 12 Awst ar gyfer dysgwyr TGAU.

Mae gwybodaeth a llythyrau at ddysgwyr oddi wrth Cymwysterau Cymru sy'n cynnwys manylion y llinell amser uchod a'r **broses apelio** ar gael yma:

<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/dyfarnu-2021/gwybodaeth-i-ddysgwyr/>

<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/dyfarnu-2021/cwestiynau-cyffredin/>

Mae rhagor o fanylion ar gael drwy glicio yma:

<https://www.qualificationswales.org/media/7234/canllawiau-asesu-haf-2021-f3.pdf>

<https://llyw.cymru/canllawiau-arholiadau-ac-asesu-2020-i-2021>

<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/>

<https://www.cbac.co.uk/>

## Cymwysterau Galwedigaethol

Mae Ofqual ac Adran Addysg Llywodraeth y DU wedi cynnal ymgynghoriad ar drefniadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau galwedigaethol yn 2021 ac mae canlyniadau'r ymgynghoriad ar gael yma (Saesneg yn unig): <http://bit.ly/2XKTz8c>.



Y cynnig yw y bydd dyfarnu cymwysterau galwedigaethol a thechnegol yn 2021 yn wahanol yn dibynnu ar y math o gymhwyster.

Mae crynodeb ar gael yn y ffeithlun yma (Saesneg yn unig):

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/964614/Infographic -  
\\_how\\_vocational\\_and\\_technical\\_qualifications\\_will\\_be\\_awarded\\_in\\_2021.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/964614/Infographic_-_how_vocational_and_technical_qualifications_will_be_awarded_in_2021.pdf)

## **GWISG YSGOL**

### **41. A oes angen i'm plentyn wisgo gwisg ysgol?**

Bydd ysgol eich plentyn yn eich cynghori ar yr hyn sy'n ofynnol yn benodol iddyn nhw, gan mai penderfyniad i ysgolion unigol a'u cyrff llywodraethu yw hyn.